
# DECHRAU DAWNSIO YN LLANGOLLEN

## *Pan Ddaeth y Fandango i Gymru*




Ym mis Mehefin 1947, perfformiodd cwmni bach o gerddorion proffesiynol a dawnswyr gwerin o Sbaen yn Llangollen yn ystod yr Eisteddfod Ryngwladol gyntaf: ar y maes, yn y babell fawr, ac yn y dref. Roedd y gynulleidfa wrth eu bodd, a newidiodd y brwdfrydedd hwnnw gymeriad yr Eisteddfod.

Ni fyddai'r ŵyl bellach yn gyfyngedig i gerddoriaeth glasurol gan gorau ac unawdwyr. Cyflwynwyd cystadlaethau dawns werin a chanu gwerin yn 1948, gyda'r dawnswyr, cantorion a'r cerddorion cyfeilio yn gwisgo eu gwisgoedd cenedlaethol.

Daeth dydd Mercher – diwrnod y gwerin – yn nodwedd ddiffiniol o'r Eisteddfod; roedd cynulleidfaoedd o hyd at 20,000 yn bresennol. Yn 1957 parhaodd y ddau gystadleuaeth tan 10 o'r gloch yr hwyr, gyda dros 100 o grwpiau'n cymryd rhan; arhosai pobl yn hwy fyth i glywed y beirniadaethau.

Ers 1947, mae bron i 200 o ddiwylliannau wedi dawnsio yn Llangollen

Roedd dod â'r dawnswyr o Sbaen i Langollen yn 1947 yn gam brys, a drefnwyd yn wych gan y Cyfarwyddwr Cyhoeddusrwydd, Harold Tudor, er mwyn sicrhau y byddai Sbaen yn cael ei chynrychioli. Roedd ymgysylltu â'r wladwriaeth ffasgaidd fwyaf yn Ewrop ar y pryd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Eisteddfod Ryngwladol o hyrwyddo gwell cysylltiadau rhyngwladol drwy ddefnyddio cerddoriaeth i feithrin cysylltiadau rhwng pobl gyffredin.

Tynnodd côr Barcelona a oedd wedi'i dderbyn yn ôl bedair wythnos yn unig cyn agoriad mis Mehefin. Nid oeddent wedi cael sgoriau'r darn prawf yn ddigon hir i allu ymarfer yn ddigonol. Penderfynodd trefnwyr yr Eisteddfod wahodd cwmni gwerin o Sbaen i Langollen fel ffordd o ddatrys y sefyllfa anodd. Mae Archifau'r Eisteddfod yn datgelu gohebiaeth brysur iawn ym mis Mai 1947 rhwng Harold Tudor yn Llangollen a Mrs Marjorie Munden ym Madrid, gwraig Brydeinig oedd mewn safle dylanwadol yng ngwleidyddiaeth Genedlaetholgar Sbaen. Awgrymodd hi gerddorion a dawnswyr gwerin blaenllaw o Seville a San Sebastián, cwmni ag enw da sicr dan arweiniad Otero de la Gandera.



The Spanish team of dancers, who are to take part in the Llangollen eisteddfod, being welcomed at the station by Mr. G. H. Northing, chairman of the eisteddfod committee, and Mr. W. S. Gwynn Williams (musical director). Mr. Northing is shaking hands with Professor L. Panero, of the Spanish Institute, London.



MEET Mercedes! She brought a tiny electric iron for her Festival frock—but the Spanish-type plug wouldn't fit. So her host, Mr. Gethin Williams, held it for her.





Trefnodd yr Eisteddfod geisiadau munud olaf y grŵp am fisâu, llety gyda theuluoedd yn Ffroncysyllte, a chroeso swyddogol i'r parti, ynghyd â chynrychiolwyr Llysgenhadaeth Sbaen, yng Ngorsaf Llangollen. Cynhaliwyd eu perfformiad cyntaf ar lwyfan yr Eisteddfod ddydd Gwener, 13 Mehefin 1947.

Cyflwynodd dawnswyr San Sebastián ddawnsiau Basgaidd traddodiadol, yng nghwmni cerddoriaeth y chiscus, offeryn sy'n debyg i ffliwt recordydd. Dawnsiodd tîm Seville fandangos gyda chyfeiliant liwt a bandurria. Mae newyddlen ffilm gyntaf yr Eisteddfod yn cynnwys y perfformiadau dawns hyn.

Efallai fod cefnogwyr hŷn yr Eisteddfod wedi darllen neu glywed straeon gwahanol – bod y dawnswyr wedi cyrraedd Llangollen ar hap, ac mai dim ond oherwydd penderfyniad dewr gan y Cyfarwyddwr Cerdd, W. S. Gwynn Williams, y cawsant berfformio. Newyddion ffug! Gellir darllen hanes llawn y twyll hwn, sy'n stori hynod ddynol, ar wefan Treftadaeth yr Eisteddfod.

Chris Adams